**Atodiad A**

# Enwi a Rhifo Strydoedd

Protocol a Chanllawiau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Ionawr 2025

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

Cynnwys


1.0 Cyflwyniad

2.0 Datblygiadau preswyl newydd

3.0 Datblygiadau masnachol newydd

4.0 Ychwanegu neu newid enw tŷ

5.0 Trosi adeilad sy'n bodoli eisoes

6.0 Ailenwi stryd

7.0 Ailrifo eiddo sy'n bodoli eisoes

8.0 Rhestr Gyfeiriadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

9.0 Canllawiau ar gyfer ceisiadau

10.0 Taliadau

11.0 Polisi Cadw

12.0 Cysylltiadau defnyddiol

# Protocol Enwi a Rhifo Strydoedd

## 1.0 Cyflwyniad

### 1.1 **Datganiad Protocol**

1.1.1 Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi cyngor ac arweiniad ar Enwi a Rhifo Strydoedd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

1.1.2 Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb statudol am Enwi a Rhifo Strydoedd (ERhS) o dan ddarpariaethau Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925 – adrannau 17 i 19. Mae hyn yn berthnasol i bob rhif neu enw eiddo a dyraniadau enwau strydoedd/heolydd, p'un a yw eiddo yn ddatblygiadau newydd ai peidio.

1.1.3 Y pwrpas yw rheoli ERhS a sicrhau ei fod yn gyson, sy'n sylfaenol i'r broses o greu cyfeiriadau. Mae cynnal safon uchel yn hanfodol ar gyfer: -

- gallu dod o hyd i gyfeiriadau'n hawdd ar gyfer cerbydau'r gwasanaethau brys
- cludo post i'r man cywir
- Danfon cynhyrchion a gwasanaethau yn ddibynadwy
- rheoli cyfeiriadau yn gyson i helpu cyrff statudol
- cwmnïau i allu derbyn cyfeiriad at ddibenion swyddogol e.e. yswiriant, sgôr credyd.

1.1.4 Safonau cenedlaethol y cytunwyd arnynt (BS7666) a set o Gonfensiynau Mewnbynnu Data sydd yn darparu cyfarwyddiadau penodol i ERhS.

### 1.2 Ystyriaethau'r Gymraeg

1.2.1 Fel awdurdod unedol Cymreig, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ddarostyngedig i'r darpariaethau a gynhwysir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg wrth enwi strydoedd a bydd yn gorfodi i strydoedd newydd gael un ffurf Gymraeg ar yr enw.

1.2.2 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo pob agwedd ar y Gymraeg.

### 1.3 Egwyddorion Cyffredinol

1.3.1 Mae gan yr Awdurdod swyddogaeth statudol i ddyrannu enwau/rhifau eiddo ac enwau strydoedd ar gyfer adeiladau newydd a throsi adeiladau ac ar gyfer newidiadau/ychwanegiadau i enwau tai o fewn y Fwrdeistref Sirol. Mae trefi post a chodau post yn cael eu dyrannu gan y Post Brenhinol ar ôl iddynt gael enw a rhif swyddogol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

1.3.2 Weithiau, gall eiddo gael eu cofrestru gyda’r cod post anghywir, a gallwn ymchwilio a thrafod â'r Post Brenhinol er mwyn ceisio datrys unrhyw broblemau.

1.3.3 Gyda datblygiadau newydd gall problemau godi o drosi adeilad yn sawl eiddo neu beidio â chofrestru datblygiad newydd yn gywir. Er mwyn datrys y materion hyn, gellir dilyn y camau arferol o ran enwi a rhifo yn ôl-weithredol.

1.3.4 Dylai ymgeiswyr ymgynghori â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar y cyfle cyntaf i osgoi oedi posibl.

1.3.5 Dylid bod yn ofalus i osgoi awgrymu unrhyw gyfeiriadau post neu godau post tybiedig i ddarpar feddianwyr neu brynwyr cyn i’r Cyngor roi cymeradwyaeth ffurfiol.

1.3.6 Dim ond gan berchnogion eiddo neu asiantau sy'n gweithredu ar eu rhan y bydd ceisiadau yn cael eu derbyn.

1.3.7 Dylid darparu rhifau Ceisiadau Cynllunio perthnasol ar y ffurflen gais.

1.3.8 Dylai pob eiddo newydd ac eiddo sydd yn cael ei drosi feddu ar Ganiatâd Cynllunio priodol. Lle rhoddir caniatâd gydag amodau, bydd eiddo yn cael eu cofrestru yn NYB (Heb ei Adeiladu Eto/*Not Yet Built*) nes bod yr amodau yn cael eu bodloni.

1.3.9 Mae ffioedd yn daladwy ar gyfer pob cais. Gellir talu ffioedd dros y ffôn gan ddefnyddio cerdyn credyd neu ddebyd. Gweler ein gwefan am y taliadau diweddaraf.

1.3.10 Cyfrifoldeb y datblygwr/perchennog/meddiannydd yw sicrhau bod yr enw/rhif a ddyrannwyd yn cael ei arddangos yn glir ar eu heiddo. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer adnabod yr eiddo e.e. yn achos y gwasanaethau brys.

1.3.11 Mae'r Cyngor yn cysylltu rhwng y datblygwr/perchennog a'r Post Brenhinol. Mae'n gyfrifoldeb ar y datblygwr/perchennog i roi gwybod i'r holl gyrff perthnasol eraill am unrhyw newidiadau e.e. Cofrestrfa Tir, gweithredoedd tai, cwmni morgeisi ac ati.

## 2.0 Datblygiad preswyl newydd

### 2.1 Egwyddorion Cyffredinol

2.1.1 Ar gyfer unrhyw adeilad newydd neu drosi adeilad yn sawl uned, mae’n rhaid i ddatblygwyr gyflwyno cais i’n Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd.

2.1.2 Dylid anfon ceisiadau drwy e-bost at streetnamingandnumbering@bridgend.gov.uk a dylent gynnwys:

- ffurflen gais ERhS wedi ei chwblhau
- cynllun safle ar raddfa briodol sy'n dangos pwyntiau danfon/blychau llythyrau
- cynllun lleoliad, sy'n dangos lleoliad y safle yng nghyd-destun y strydoedd/ardal gyfagos.
- manylion cyswllt y person sy'n gallu talu'r ffi briodol – gweler ein gwefan am y taliadau diweddaraf

2.1.3 Yn ystod y broses, byddwn yn creu rhestr rifo fel y gall y Post Brenhinol neilltuo’r codau post cywir.

## 2.2 Proses

2.2.1 Pan fo heol/heolydd yn cael eu rhoi ger bron i’w mabwysiadu gan y Cyngor, mae’n rhaid i’r Cyngor ymgynghori â’r cynghorau tref neu gymuned perthnasol, y Post Brenhinol a Chynghorwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Gall y broses gymryd 12 wythnos a chyfrifoldeb y datblygwr yw caniatáu digon o amser ar gyfer yr ymgynghori.

2.2.2 Lle nad yw'n fwriadu rhoi heol/heolydd ger bron i'w mabwysiadu gan y Cyngor, yna cytunir ar enwau strydoedd rhwng y datblygwr, y Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd a'r Post Brenhinol.

2.2.3 Caiff enw’r stryd ei gytuno.

2.2.4 Mae’n rhaid i 50% o’r eiddo fod wrthi’n cael eu codi cyn y bydd rhestr rifo’n cael ei chreu. Mae hyn yn osgoi’r angen i ail-rifo yn deillio o newidiadau i'r camau adeiladu.

2.2.5 Os oes angen ailrifo, bydd ffi bellach yn daladwy yn unol â'r taliadau ar y wefan.

2.2.6 Mae'r Post Brenhinol yn derbyn rhestr rifo fel y gallant neilltuo codau post i eiddo.

2.2.7 Yna anfonir y Rhestr Blotiau Post at y datblygwr.

2.2.8 Bydd y Post Brenhinol yn cofrestru'r eiddo fel NYB (Heb ei Adeiladu Eto). Mae'n gyfrifoldeb ar y datblygwr i hysbysu'r Post Brenhinol unwaith y bydd eiddo yn barod i'w feddiannu, gan ddefnyddio eu ffurflen ar-lein. Yna bydd y Post Brenhinol yn ei ychwanegu at ei gronfa ddata PAF (Ffeil Cyfeiriadau Post).

2.2.9 Mae angen i ddatblygwyr fod yn ymwybodol, er y dylai’r gwasanaeth ar-lein yn www.royalmail.com adlewyrchu newidiadau ar ôl 2 ddiwrnod gwaith, gall cywiriadau/ychwanegiadau i'r gronfa ddata gymryd sawl mis i hidlo drwodd i ddefnyddwyr terfynol data’r Ffeil Cyfeiriadau Cod Post. Nid oes gan y Post Brenhinol awdurdodaeth dros ba mor aml mae cwmnïau allanol yn diweddaru

eu cronfeydd data nhw.

2.2.10 Mae'n gyfrifoldeb ar y datblygwr i osod byrddau enwau strydoedd cychwynnol yn unol â safonau cenedlaethol. Dylai rhifau tai hefyd gael eu harddangos yn glir.

## 2.3 Enwi Strydoedd

2.3.1 Gofynnir i ddatblygwyr awgrymu enwau ar gyfer strydoedd neu adeiladau newydd, ond bydd y Cyngor yn gorfodi strydoedd newydd i un ffurf Gymraeg o'r enw. Bydd y rhain yn cael eu hystyried yn ystod yr ymgynghoriad, ond mae'n rhaid i enw newydd fod yn berthnasol i hanes, daearyddiaeth a nodweddion naturiol safle. Gellir dod o hyd i restr o enwau lleoedd hanesyddol yn https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/

2.3.2 Gall enwi strydoedd ar ôl unigolion fod yn fater goddrychol felly nid yw Pen-y-bont ar Ogwr yn caniatáu hyn.

2.3.3 Rhaid i'r Cyngor geisio cydsyniad os oes gan yr enw arwyddocâd Brenhinol. Gellir cael hyn gan Swyddfa'r Arglwydd Siambrlen drwy e-bostio RoyalNames@cabinetoffice.gov.uk.

2.3.4 Ni chaniateir defnyddio enwau strydoedd y gellir eu hystyried fel hysbysebion neu sy'n hwyluso budd masnachol.

2.3.5 Dylid osgoi enwau strydoedd y gellir eu camddehongli'n fwriadol neu sy'n esthetaidd anaddas e.e. Heol y Ffwrch.

2.3.6 Ni fydd unrhyw enwau strydoedd y gellid eu hystyried yn hiliol, anweddus neu a fyddai'n groes i unrhyw agwedd ar bolisïau cyfle cyfartal Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn dderbyniol.

2.3.7 Dylai enwau atodol, e.e. rhes o adeiladau ar ffordd sydd wedi ei enwi eisoes (e.e. 'Teras ....') gael eu hosgoi os yn bosibl

2.3.8 Dylid osgoi enwau strydoedd sy'n dechrau gyda "Y" neu "Yr".

2.3.9 Ni ddylai enwau strydoedd Saesneg gynnwys geiriau sy'n gorffen gydag "s" os gellir eu dehongli fel meddiannol neu luosog e.e. "Freds Road".

2.3.10 Ni ddylid defnyddio talfyriadau, heblaw am "St" yn Sasneg yn lle "Saint".

2.3.11 Rhaid i enwau strydoedd newydd fod yn Gymraeg yn unig. (Fodd bynnag, ni fydd strydoedd dwyieithog a enwyd yn hanesyddol yn cael eu newid.)

2.3.12 Yn gyffredinol, nid yw defnyddio 'Gogledd', 'De', 'Dwyrain' neu 'Gorllewin' fel ôl-ddodiad yn dderbyniol, ond cydnabyddir y gallai fod yn briodol gwneud hynny o dan amgylchiadau eithriadol er mwyn hwyluso'r broses adnabod.

2.3.13 Ni ddylid rhoi'r un enw ond gyda rhagddodiad gwahanol i strydoedd sydd yn gyfagos e.e. Clos y Fedwen, Heol y Fedwen.

2.3.14 Bydd pob enw stryd newydd yn dechrau gydag un o'r rhagddodiaid canlynol a'u harfer yn y modd canlynol:

- Heol - ar gyfer unrhyw brif ffordd neu ffyrdd trwodd
- Coedlan - ar gyfer unrhyw ffordd neu ffyrdd trwodd
- Rhodfa - ar gyfer unrhyw ffordd neu ffyrdd trwodd
- Stryd - ar gyfer unrhyw ffordd neu ffyrdd trwodd
- Ffordd - ar gyfer unrhyw ffordd neu ffyrdd trwodd
- Llwyn - ar gyfer strydoedd preswyl
- Stablau - ar gyfer strydoedd preswyl
- Maes - ar gyfer strydoedd preswyl
- Filas - ar gyfer strydoedd preswyl
- Gerddi - ar gyfer heolydd preswyl (Ar yr amod nad oes dryswch â mannau agored lleol)
- Clos - ar gyfer heolydd pengaead yn unig
- Cwrt neu Llys - ar gyfer heolydd pengaead a blociau preswyl yn unig
- Pen - ar gyfer heolydd pengaead yn unig
- Cylch -ar gyfer heolydd sy'n dechrau a gorffen yn yr un man
- Cilgant - ar gyfer heolydd â siâp cilgant
- Sgwâr - ar gyfer sgwâr yn unig
- Teras - ar gyfer teras o dai
- Bryn - ar gyfer heol fryniog yn unig
- Crib - ar gyfer heol fryniog yn unig
- Rhiw - ar gyfer heol fryniog yn unig
- Rhes - ar gyfer heol breswyl mewn amgylchiadau priodol
- Bro - ar gyfer heolydd preswyl mewn amgylchiadau priodol
- Trem - ar gyfer heolydd preswyl mewn amgylchiadau priodol
- Comin - ar gyfer heolydd mewn amgylchiadau priodol
- Parêd - ar gyfer heolydd mewn amgylchiadau priodol
- Parc - ar gyfer heolydd mewn amgylchiadau priodol
- Glan - ar gyfer heolydd mewn amgylchiadau priodol
- Lôn - ar gyfer unrhyw ffordd neu ffordd drwodd mewn ardal wledig (neu mewn amgylchiadau priodol)
- Dôl - ar gyfer unrhyw ffordd neu ffordd drwodd mewn ardal wledig
- Gwaun - yn ddewis arall i'r uchod
- Tywyn - ar gyfer heolydd sydd â chysylltiad hanesyddol â dyffryn coediog
- Glanfa - ar gyfer heolydd sy'n gyfochrog neu gerllaw dyfrffyrdd y gellir eu mordwyo

- Cylchdro - ar gyfer cylchfan fawr
- Rhodfa - ar gyfer ffyrdd i gerddwyr
- Llwybr - ar gyfer ffyrdd i gerddwyr
- Llwybr Troed - ar gyfer ffyrdd i gerddwyr

2.3.15 Ar gyfer blociau o fflatiau, dylai adeiladau'n ddelfrydol orffen gydag un o'r ôl-ddodiadau canlynol (neu ragddodiadau yn achos enwau Cymraeg):

- Tŷ
- Llys neu Cwrt
- Lodge
- Fflatiau
- Pwynt
- Plasty
- Tŵr
- Tyrau

## 2.4 Rhifo Eiddo

2.4.1 Dylid dyrannu rhif i bob eiddo. Gweithredir y protocolau canlynol ar unrhyw gynlluniau datblygiadau newydd a byddant yn cynnwys:

- Odrifau eiddo wedi eu dyrannu i ochr chwith y stryd newydd arfaethedig yn rhedeg o ddechrau i ddiwedd y stryd

- Eilrifau eiddo wedi eu dyrannu i ochr dde y stryd newydd arfaethedig yn rhedeg o ddechrau i ddiwedd y stryd

- Caiff ffyrdd pengaead a datblygiadau ar raddfa fechan eu rhifo'n olynol gan ddilyn cyfeiriad y cloc. Caiff datblygiadau pengaead hirach unwaith eto eu rhifo gydag odrifau eiddo wedi eu dyrannu ar y chwith ac eilrifau eiddo wedi eu dyrannu ar y dde

- Gellir diddymu rhif eiddo 13 o'r cynllun rhifo eiddo, yn bennaf ar sail ceisiadau hanesyddol i'w newid

- Lle nad oes cyfres rhifo stryd yn bodoli, mewn ardaloedd gwledig yn bennaf, bydd yn briodol dyrannu enwau eiddo y cytunwyd arnynt. Fodd bynnag, dylai pob enw eiddo cymeradwy gyfeirio yn uniongyrchol at y stryd swyddogol ddynodedig agosaf er mwyn galluogi'r gwasanaethau brys i ddod o hyd i eiddo yn gyflym

- Bydd **datblygiadau mewnlenwi** (eiddo newydd a gaiff ei adeiladu rhwng eiddo sy'n bod eisoes neu sydd ar dir eiddo sy'n bod eisoes) ar stryd sydd wedi ei rifo yn derbyn yr un rhif ty â'r eiddo yn union cyn y mewnlenwad a'i ddilyn gan ôl-ddodiad 'A', 'B' ac ati. Er enghraifft, 24A,

24B.

- Caiff eiddo, yn benodol y rheiny sydd ar safle cornel, eu rhifo neu eu henwi yn unol â’r stryd lle lleolir ac y cyrchir y brif fynedfa. Ni chaniateir ystumio enwau neu rifau eiddo er mwyn sicrhau cyfeiriad mwy mawreddog neu er mwyn osgoi cyfeiriad, y tybir fod iddo gynodiadau annymunol.

- Dylid rhoi enw i fflatiau a blociau fflatiau (a rhif lle bo hynny'n briodol) ond bydd pob fflat neu fflat unigol yn cael ei rifo yn olynol i gyfeiriad clocwedd o'r brif fynedfa. Dylai lloriau uwch barhau â'r dilyniant rhifo i gyfeiriad clocwedd o'r fynedfa allan o'r grisiau/lifft. Dylid rhifo fflatiau fel Fflat 1, Fflat 2 ac ati.

## 3.0 Datblygiadau masnachol newydd

### 3.1 Egwyddorion Cyffredinol

3.1.1 Bydd y weithdrefn ar gyfer datblygiadau masnachol yn cwmpasu pob datblygiad ar gyfer ystadau diwydiannol, canolfannau siopa, arcedau, parciau manwerthu ac ardaloedd i gerddwyr.

3.1.2 Er mwyn lleihau dryswch, bydd cyfeiriad pob eiddo masnachol yn gyfeiriad cynaliadwy y gellir ei ailddefnyddio waeth pa fusnes neu sefydliad sy’n meddiannu’r eiddo. Caiff rhifau uned priodol eu dyrannu a fydd yn aros yn gyson hyd yn oed os fydd y busnes sy’n meddiannu’r eiddo yn newid. Dylid arddangos rhif yr uned yn amlwg ar bob adeilad.

3.1.3 Lle bo’n briodol rhoddir enw ar ystâd diwydiannol. Dylai pob eiddo masnachol fod wedi ei rifo’n unigol neu ei enwi ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol lle mai enw’r busnes neu sefydliad yw’r unig fodd o adnabod yr eiddo.

3.1.4 Dylid anfon ceisiadau drwy e-bost at streetnamingandnumbering@bridgend.gov.uk a dylai gynnwys: -

- ffurflen gais ERhS (SNN) wedi ei chwblhau
- cynllun safle ar raddfa briodol sy'n dangos pwyntiau danfon/blychau llythyrau
- cynllun lleoliad, sy'n dangos lleoliad y safle yng nghyd-destun y strydoedd/ardal gyfagos.
- manylion cyswllt y person sy'n gallu talu'r ffi briodol – gweler ein gwefan am y taliadau diweddaraf

### 3.2 Proses

3.2.1 Dylid nodi bod enwau Canolfannau Siopa, Parciau Manwerthu ac Ystadau Diwydiannol ac ati yn amodol ar yr un egwyddorion â'r rhai a amlinellwyd ar gyfer enwau strydoedd neu adeiladau a nodir yn Adrannau 2 a 3. Argymhellir bod cyswllt yn cael ei wneud â'r tîm Enwi a Rhifo Strydoedd yn ystod y cam datblygu cynharaf felly gellir cytuno ar gynlluniau enwi a rhifo arfaethedig o'r cychwyn cyntaf.

**3.3 Enwi Strydoedd/Safleoedd**

3.3.1 Cytunir ar enw ar gyfer pob arcêd a chanolfan siopa, a bydd gofyn i bob siop neu uned o'u mewn i gael ei rif unigol ei hun, e.e. 18 Y Rhiw, Pen-y-bont ar Ogwr.

3.3.2 Os yw'r ganolfan siopa, arcêd, rhodfa siopa, parc manwerthu, neu ganolfan siopa i gerddwyr yn cynnwys mwy nag un stryd ag enw swyddogol, caiff yr eiddo eu rhifo i'r stryd o le y bernir y ceir y brif fynedfa iddynt.

3.3.3 Ar gyfer datblygiadau mwy ac ystadau diwydiannol, bydd enw ardal leol gymeradwy yn cael ei neilltuo i gynorthwyo gyda'r adnabod, e.e. Uned 1, Stryd Bennett, Ystâd Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr, Pen-y-bont ar Ogwr

**3.4 Rhifo Eiddo**

3.4.1 Dylai eiddo masnachol sy'n cynnwys nifer o swyddfeydd, ystafelloedd swyddfa neu unedau sicrhau fod pob un wedi ei rifo yn unigol yn ddelfrydol yn ôl cynllun rhifo. Er enghraifft, Ystafell 1, Ystafell 2

**4.0 Ychwanegu neu newid enw tŷ**

**4.1 Egwyddorion Cyffredinol**

4.1.1 Er mwyn ychwanegu neu newid enw tŷ sy'n bod eisoes, rhaid i ddatblygwyr wneud cais i'n Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd. Codir tâl am y gwasanaeth hwn. Gweler ein gwefan am daliadau.

4.1.2 Dylid anfon ceisiadau drwy e-bost at streetnamingandnumbering@bridgend.gov.uk a dylai gynnwys: -

- ffurflen gais ERhS wedi ei chwblhau
- cynllun lleoliad sy'n dangos yr eiddo yng nghyd-destun y strydoedd/ardal gyfagos.
- manylion cyswllt y person sy'n gallu talu'r ffi briodol – gweler ein gwefan am y taliadau diweddaraf

## 4.2 Proses

4.2.1 Unwaith y cytunir ar enw tŷ rhwng y datblygwr/perchennog a'r Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd, ymgynghorir â'r Post Brenhinol, a byddant yn ychwanegu'r enw at eu cronfa ddata PAF (Ffeil Cyfeiriadau Post).

4.2.2 Mae angen i ddatblygwyr fod yn ymwybodol, er y dylai'r gwasanaeth ar-lein yn www.royalmail.com adlewyrchu newidiadau hyd at 1 mis yn ddiweddarach, gall cywiriadau/ychwanegiadau i'r gronfa ddata gymryd sawl mis i hidlo drwodd i ddefnyddwyr terfynol data'r Ffeil Cyfeiriadau Cod Post. Nid oes gan y Post Brenhinol awdurdodaeth dros ba mor aml mae cwmnïau allanol yn diweddaru eu cronfeydd data nhw.

4.2.3 Cyfrifoldeb y perchennog/datblygwr yw i ddiweddaru unrhyw ddogfennau cyfreithiol, megis Cofrestrfa Tir, morgeisi ac yswiriant ac ati.

## 4.3 Enwi Eiddo

4.3.1 Caniateir dyrannu enw ar eiddo pan fo cynllun rhifo eisoes ar waith. Bydd yr enw yn ychwanegiad i'r rhif ac nid yn ei ddisodli.

4.3.2 Lle mae gan eiddo enw eisoes, gellir newid hwn.

4.3.3 Ni ddylai'r enw arfaethedig fod yn cael ei ddefnyddio gan unrhyw eiddo arall, na swnio'n rhy debyg i enw eiddo arall, yn yr ardal. Bydd gwiriad manwl yn cael ei gynnal ar ôl derbyn y cais er mwyn osgoi dyblygu.

4.3.4 Ni dderbynnir enwau stryd neu adeiladau a gaiff eu hawgrymu y gellid eu hystyried yn groes i Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor a Deddf Cydraddoldeb 2010 neu y gellid eu hystyried fel rhai tramgwyddus neu anweddus neu'n agored i gael eu camddehongli.

4.3.5 Wrth ystyried ceisiadau am newid i enw eiddo sy'n ymddangos mewn cyfeiriad swyddogol, bydd yn ofynnol i'r Cyngor wirio'r cynnig yn erbyn y rhestr o enwau lleoedd hanesyddol. Os oes tystiolaeth dda bod gan yr eiddo enw hanesyddol sydd wedi ymddangos ar fapiau hanesyddol, bydd y Cyngor yn gofyn i'r ymgeisydd ailystyried yr enw arfaethedig a chadw'r enw neu, o bosib, fabwysiadu'r enw hanesyddol. Gellir dod o hyd i enwau lleoedd hanesyddol yn https://historicplacenames.rcahmw.gov.uk/

4.3.6 Rhaid i'r Cyngor geisio cydsyniad os oes gan yr enw a awgrymir gynodiadau Brenhinol. Gellir cael hwn gan Swyddfa'r Arglwydd Siambrlen drwy e-bostio RoyalNames@cabinetoffice.gov.uk

4.3.7 Gall enwi eiddo ar ôl unigolion (naill ai'n fyw neu'n farw) fod yn fater goddrychol felly nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn caniatáu hyn.

## 5.0 Trosi Adeilad sy'n Bodoli'n Barod

### 5.1 Egwyddorion Cyffredinol

5.1.1 Er mwyn trosi adeilad sy'n bod eisoes, mae'n rhaid i ddatblygwyr gyflwyno cais i'n Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd. Codir tâl am y gwasanaeth hwn. Gweler ein gwefan am daliadau.

5.1.2 Gellir trosi adeiladau o un annedd i fflatiau lluosog sydd ag un mynedfa neu sawl mynedfa. I'r gwrthwyneb, gellir cyfuno eiddo lluosog hefyd i ffurfio un eiddo.

5.1.3 Dylid anfon ceisiadau drwy e-bost at streetnamingandnumbering@bridgend.gov.uk a dylai gynnwys: -

- ffurflen gais ERhS wedi ei chwblhau
- cynllun safle wedi'i raddio'n briodol sy'n dangos pwyntiau danfon (blychau llythyrau) ar gyfer pob uned
- cynllun lleoliad, sy'n dangos lle mae'r safle yng nghyd-destun y strydoedd cyfagos.
- manylion cyswllt y person sy'n gallu talu'r ffi briodol – gweler ein gwefan am y taliadau diweddaraf

### 5.2 Proses

5.2.1 Cytunir ar yr enwi/rhifo.

5.2.2 Mae'r Post Brenhinol yn cael amserlen rifo, a byddant yn cadarnhau'r cod post.

5.2.3 Anfonir y Rhestr Blotiau Post at y datblygwr.

5.2.4 Bydd y Post Brenhinol yn cofrestru'r eiddo fel NYB (Heb ei Adeiladu Eto). Mae'n gyfrifoldeb ar y datblygwr i hysbysu'r Post Brenhinol unwaith y bydd eiddo yn barod i'w meddiannu, gan ddefnyddio eu ffurflen ar-lein. Yna bydd y Post Brenhinol yn eu hychwanegu at y PAF (Ffeil Cyfeiriadau Post).

5.2.5 Mae angen i ddatblygwyr fod yn ymwybodol, er y dylai'r gwasanaeth ar-lein www.royalmail.com adlewyrchu newidiadau ar ôl 2 ddiwrnod gwaith, gall cywiriadau/ychwanegiadau i'r gronfa ddata gymryd sawl mis i hidlo drwodd i ddefnyddwyr terfynol data'r Ffeil Cyfeiriadau Cod Post. Nid oes gan y Post Brenhinol awdurdodaeth dros ba mor aml mae cwmnïau allanol yn diweddaru

eu cronfeydd data.

5.2.6 Mae'n gyfrifoldeb y datblygwr i wneud yn siŵr bod rhifau'n cael eu harddangos yn glir.

5.2.7 Mae'n gyfrifoldeb ar y datblygwr i ddiweddaru unrhyw ddogfennau cyfreithiol fel y Gofrestrfa Tir, morgeisi ac yswiriant ac ati.

### 5.3 Rhifo'r Eiddo

5.3.1 Bydd trosi neu rannu eiddo preswyl sy'n arwain at un pwynt mynediad lle cyrchir yr holl fflatiau ohono yn golygu rhifo yn hytrach na disgrifiad neu lythrennau. e.e. mae "Fflat 1, 24 Stryd Wyndham" yn dderbyniol; nid yw "Fflat Llawr Cyntaf" neu "Fflat A" yn dderbyniol.

5.3.2 Bydd trosi neu rannu eiddo preswyl sy'n arwain at bwyntiau mynediad lluosog gyda phob fflat â'i ddrws blaen ei hun ar wahân o'r stryd ddynodedig, yn cynnwys ôl-ddodiad i'r prif neu'r cyfeiriad cyffredinol, e.e. 24A Stryd Wyndham, 24B Stryd Wyndham ac ati.

5.3.3 Pan fydd eiddo yn cael ei enwi ond nid ei rifo, ac mae'r trosi neu'r is-rannu yn arwain at sawl pwynt mynediad, yna bydd yr adeilad yn cadw'r enw ar gyfer yr adeilad yn ei gyfanrwydd. Bydd pob is-raniad yn cael ei rifo yn unol â hynny e.e. Fflat 1 Tŷ Pen-y-bont ar Ogwr; Uned 1 Tŷ Pen-y-bont ar Ogwr ac ati. Dylai pob drws blaen fod ag arwydd i adlewyrchu'r cynllun mewnol a dylid nodi'r adeilad yn glir.

5.3.4 Bydd eiddo a gyfunwyd yn defnyddio rhifau'r eiddo gwreiddiol pan ddefnyddir rhifau eiddo.

5.3.5 e.e. byddai uno dau eiddo yn 4 Stryd Fawr a 6 Stryd Fawr yn arwain at gyfeiriad newydd sef 4 – 6 Stryd Fawr. Yn yr un modd, bydd Uned 1 Ystâd Fasnachu ac Uned 2 Ystâd Fasnachu yn arwain at gyfeiriad newydd Uned 1-2 Ystâd Fasnachu.

## 6.0 Ailenwi stryd

### 6.1 Egwyddorion Cyffredinol

6.1.1 Caiff newid enw stryd yng Nghasnewydd ei wneud o fewn darpariaethau Adran 18 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925 ~ Newid enw stryd.

6.1.2 Trwy orchymyn gall y Cyngor newid enw unrhyw stryd, neu ran o stryd, neu gall ddynodi enw ar unrhyw stryd, neu ran o stryd, lle nad oes enw wedi ei roi.

## 6.2 Proses

6.2.1 Heb fod yn llai nag un mis cyn gwneud y gorchymyn o dan yr adran hon, bydd y Cyngor yn hysbysu'r gorchymyn arfaethedig ar ddiwedd bob pen i'r stryd, neu ran o'r stryd, neu mewn rhyw fan amlwg yn y stryd neu'r rhan a effeithir.

6.2.2 Bydd pob hysbysiad o'r fath yn cynnwys datganiad i'r perwyl y gall y Cyngor wneud y gorchymyn arfaethedig ar unrhyw adeg wedi'r dyddiad a enwir yn yr hysbysiad, a bydd modd i unrhyw berson a dramgwyddir yn ei erbyn apelio o dan y ddeddf hon i lys ynadon yn erbyn y gorchymyn arfaethedig.

6.2.3 Gall unrhyw berson a gaiff ei dramgwyddo gan orchymyn arfaethedig y Cyngor, o fewn un diwrnod ar hugain wedi codi'r hysbysiad, apelio i'r Llys Ynadon.

6.2.4 Mewn achos pan fo gofyn am newid enw stryd sy'n bodoli'n barod neu bod enw stryd yn cael ei neilltuo i stryd nad oedd ag enw o'r blaen, yna ymgynghorir yn llawn â'r preswylwyr presennol.

6.2.5 Pan fo preswylwyr yn gofyn i gael enwi neu ailenwi stryd sy'n bodoli eisoes a phan fo dau draean o'r preswylwyr yn cytuno, gellir gwneud cais i newid enw stryd.  Bydd gofyn i'r cais fod a rhesymau penodol a rhaid cynnwys y dewis enw. Rhaid i'r enw newydd lynu wrth yr egwyddorion a nodwyd yn y polisi.

6.2.6 Mae'n gyfrifoldeb i'r preswylydd sy'n cynnig y newid ymgynghori â holl drigolion eraill y stryd a chael cytundebau wedi'u llofnodi sy'n nodi'n glir eu bod yn deall goblygiadau newid enw.  Rhaid i bob preswylydd hefyd gytuno i dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r ailenwi sy'n ymwneud â'u heiddo eu hunain e.e. newid enw ar bob dogfen gyfreithiol fel gweithredoedd tŷ, morgeisi, yswiriant ac ati.

# 7.0 Ailrifo Eiddo Sy'n Bod Eisoes

## 7.1 Egwyddorion Cyffredinol

7.1.1 Bydd ail-rifo eiddo sy'n bodoli'n barod yn cael ei ystyried pan geir newidiadau sy'n peri (neu sy'n debygol o beri) problemau ar gyfer darparu gwasanaethau neu faterion a gaiff eu codi gan y gwasanaethau brys. Gallai hyn fod yn berthnasol lle na ellir cwmpasu datblygiad newydd o fewn y gyfres rifo sy'n bodoli'n barod. Gan y gall y broses gymryd amser ac arwain at gostau ychwanegol, tarfu neu anghyfleustra i feddianwyr unigol, dylid ei osgoi lle bynnag y bo modd.

7.1.2 Ar gyfer datblygiadau newydd ar stryd sy'n bodoli'n barod, ffefrir defnyddio ôl-ddodiaid, neu ail-rifo os mai ond ychydig o eiddo a effeithir, yn hytrach nag ail-

rifo stryd gyfan. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn bosibl, a bydd ailrifo eiddo yn ôl disgresiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

## 8.0 Rhestr Gyfeiriadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

8.1 Fel awdurdod lleol, mae gofyn i'r Cyngor reoli a chynnal Rhestr Cyfeiriadau a Strydoedd Corfforaethol gyda diweddariadau rheolaidd yn cael eu bwydo i hyb canolog y Rhestr Cyfeiriadau a Strydoedd Cenedlaethol.

## 9.0 Canllaw ar gyfer ceisiadau

### 9.1 Sut i wneud cais

- Ewch i'r wefan yn https://www.penybontarogwr.gov.uk/preswylwyr/cynllunio-a-rheoli-adeiladu/arwyddion-stryd-enwau-a-rhifau/
- E-bost: streetnamingandnumbering@bridgend.gov.uk
- Cysylltwch â'r tîm ERhS ar (01656) 643643

### 9.2 Beth sydd ei angen?

9.2.1 Dylid anfon ceisiadau drwy e-bost at streetnamingandnumbering@bridgend.gov.uk a dylai gynnwys: -

- ffurflen gais ERhS wedi ei chwblhau
- cynllun safle wedi'i raddio'n briodol sy'n dangos pwyntiau danfon/blychau llythyrau.
- cynllun lleoliad, sy'n dangos lle mae'r safle yng nghyd-destun y strydoedd cyfagos.
- manylion cyswllt y person sy'n gallu talu'r ffi briodol – ewch i'n gwefan am y taliadau diweddaraf.

## 10.0 Taliadau

| Gwasanaeth | Taliadau 24/25 gan gynnwys TAW |
|---|---|
| Newid enw tŷ / Enw tŷ newydd | £43.96 |
| Cadarnhau cyfeiriad post – e.e. at ddibenion cyfreithwyr a throsglwyddo | £43.96 |
| Trosi adeilad cofrestredig presennol yn fflatiau/unedau unigol | £210.48 |
| Enwi a rhifo datblygiadau (1-5 llain) | £210.48 |

| | |
|---|---|
| Enwi a rhifo datblygiadau (mwy na 5 llain) | £438.05 |

**11.0** Polisi Cadw

11.1 Mae'r holl ddogfennau yn cael eu cadw yn unol â Pholisi Cadw Dogfennau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**12.0 Cysylltiadau Defnyddiol**

- Cyfeiriad gwefan CBSP: https://www.penybontarogwr.gov.uk/preswylwyr/cynllunio-a-rheoli-adeiladu/arwyddion-stryd-enwau-a-rhifau/
- Cyfeiriad e-bost CBSP: streetnamingandnumbering@bridgend.gov.uk
- Gwiriwr cod post y Post Brenhinol: www.royalmail.com/find-a-postcode
- Cyfeiriad e-bost y Gofrestrfa Tir: customersupport@landregistry.gov.uk